ASTUDIAETH ACHOS
SUT Y GALLWN NI WARCHOD BIOAMRYWIAETH?



Roedd dysgwyr wedi sylwi ar löyn byw cyntaf y flwyddyn ar dir yr ysgol. Roeddent yn awyddus i ddarganfod beth arall oedd yn byw ar dir yr ysgol ac i weld a allent ddenu mwy o anifeiliaid yno, fel y glöyn byw.

Bu'r dysgwyr sydd yn gweithio ar Gam cynnydd 3 yn ymchwilio i ystyr 'bioamrywiaeth' cyn iddynt asesu bioamrywiaeth tiroedd eu hysgol. Roedd yr athro wedi dod o hyd i'r rhaglen The National Education Nature Park programme a gynhyrchwyd gan yr Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain. Er bod y rhaglen hon ar gyfer ysgolion yn Lloegr, teimlai'r athro y byddai'r broses a ddisgrifiwyd fel: Cam 1: Dod i adnabod eich gofod, Cam 2: Nodi cyfleoedd, Cam 3: Gwneud penderfyniadau a Cham 4: Gwneud i newid ddigwydd, yn syml i'w dilyn o fewn dwy flynedd ysgol.

Dechreuodd y dysgwyr trwy asesu bioamrywiaeth tiroedd yr ysgol ar ddiwedd y gwanwyn, gan gymryd ffotograffau, gwneud nodiadau ac yn bwysicaf oll nodi'r planhigion a'r anifeiliaid oedd yn y gofod o'u dewis, fel y disgrifir yn y gweithgaredd. Buont yn astudio gwasarn dail, gan ganfod llawer o infertebratau ynddo a'u cofnodi. Gweithiodd y dysgwyr mewn grwpiau, gan ganolbwyntio ar un rhan o dir yr ysgol. Cynhyrchwyd taenlenni yn dangos yr organebau y daethant o hyd iddynt. Ailadroddodd y dysgwyr y broses hon yn yr hydref a chymharu'r ddwy daenlen.

Yna, bu'r dysgwyr yn trafod eu syniadau ynghylch sut y gellid cynyddu bioamrywiaeth cyn gwneud penderfyniadau ar sut i wneud hynny ar dir yr ysgol. Fe wnaethant gynllunio beth i'w wneud a phryd i'w wneud er mwyn cael yr effaith fwyaf. Roedd y syniadau a roddwyd ar waith yn cynnwys:

- Diffodd goleuadau allanol yn y nos, pan nad oedd eu hangen
- Plannu rhai llwyni naturiol a blodau gwyllt
- Adeiladu 'gwestai chwilod' a gosod boncyffion coed mawr yn yr ardaloedd naturiol.

Tua chwe mis ar ôl cwblhau eu hymyriadau, bu'r dysgwyr wrthi'n samplu tir yr ysgol drachefn. Roedd yn braf canfod eu bod wedi cynyddu'r bioamrywiaeth oddueutu 30%, sef nifer y gwahanol rywogaethau sy'n byw yn y tir dan sylw. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn rhywogaethau peillwyr ac infertebratau.

Cyn diwedd y gwaith o adfer tir yr ysgol, cwblhaodd y dysgwyr y gweithgaredd ar Tirlun. Fe gawson nhw lawer o fwynhad yn darlunio eu 'hanifail dychmygol sy'n byw mewn anialwch tywodlyd' ac aethant ymlaen i ddefnyddio AI i lunio fersiynau gwahanol yn ogystal ag ysgrifennu barddoniaeth am fywyd eu hanifail.

